**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD** **STD 01-02(06)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 20 Mawrth 2002**
**Amser:** **9.30am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Defnyddio Deunydd Ysgrifennu ac Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Yn amgaeëdig, ceir copi o’r Canllawiau diwygiedig ar Ddefnyddio Deunydd Ysgrifennu ac Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Pwyllgor y Ty wedi gwneud cais i’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried y canllawiau diwygiedig a rhoi sylwadau arnynt.

Disgwylir canllawiau ychwanegol gan David Lambert mewn perthynas ag e-bost a hawlfraint – caiff y wybodaeth hon ei dosbarthu ar wahân i’r Aelodau.

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y Canllawiau diwygiedig a chynghori a oes angen unrhyw newidiadau neu welliannau pellach iddynt, cyn y caiff y canllawiau eu hanfon at y Llywydd i’w cymeradwyo.

***Yr Ysgrifenyddiaeth***